# Hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn adnabod y gofynion wrth hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc. Mae'n nodi sut mae darparu amgylchedd sy'n cefnogi, yn cadarnhau ac yn gwerthfawrogi plant neu bobl ifanc ac yn eu helpu i reoli eu teimladau a'u perthynas ag eraill. Mae hyn yn cynnwys galluogi plant neu bobl ifanc i ymwneud ag eraill, darparu amgylchedd cefnogol a heriol, galluogi plant neu bobl ifanc i gymryd risgiau'n ddiogel ac annog hunanddibyniaeth, hunan-barch a gwydnwch.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. ymgysylltu â phlant neu bobl ifanc mewn ffordd sy’n canolbwyntio ar y plentyn i’w grymuso mewn penderfyniadau sy’n effeithio arnynt
2. parchu a gwerthfawrogi barn a theimladau plant neu bobl ifanc
3. defnyddio cyfleoedd i blant neu bobl ifanc i gymryd tro neu rannu lle, ac ystyried barn a theimladau eraill
4. adnabod ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
5. defnyddio strategaethau cefnogol i helpu plant neu bobl ifanc ddatblygu sgiliau hunanreoleiddio
6. hybu amgylcheddau tawel a meithringar sy’n cefnogi plant neu bobl ifanc i fynegi eu teimladau
7. hybu rhyngweithiadau cadarnhaol sy'n cefnogi llesiant plant neu bobl ifanc
8. cefnogi hunan-barch a gwydnwch plant neu bobl ifanc drwy gynnig anogaeth ac atgyfnerthiad cadarnhaol
9. annog plant neu bobl ifanc i roi cynnig ar weithgareddau a phrofiadau newydd a chydnabod eu hymdrechion a’u cyflawniadau
10. gwerthfawrogi amrywiaeth drwy gydnabod a pharchu nodweddion tebyg a gwahanol
11. cefnogi plant neu bobl ifanc i fynegi ac adnabod eu teimladau
12. annog plant neu bobl ifanc i wneud dewisiadau a phenderfyniadau
13. helpu plant neu bobl ifanc i ragweld, adnabod a derbyn canlyniadau eu gweithredoedd
14. cefnogi plant neu bobl ifanc i weithio drwy heriau
15. hybu derbyniad a pharchu nodweddion unigryw plant neu bobl ifanc
16. dangos natur onest ac agored wrth ryngweithio â phlant neu bobl ifanc
17. annog plant neu bobl ifanc i adnabod eu cryfderau a meithrin hunanddelwedd gadarnhaol
18. cynnwys teuluoedd yn y gwaith o gefnogi plant neu bobl ifanc i ddatblygu a chymryd risgiau cadarnhaol
19. gweithio mewn partneriaeth â phlant neu bobl ifanc i osod ffiniau o fewn y fframwaith o asesiadau risg
20. annog plant neu bobl ifanc i asesu risgiau i’w hunain ac eraill
21. egluro, cytuno a phennu disgwyliadau a rennir â phlant neu bobl ifanc
22. ymyrryd pan fydd plant neu bobl ifanc mewn perygl o niwed

23. helpu plant neu bobl ifanc i osod nodau realistig a heriol y gellir eu cyflawni
24. gweithio ag eraill i gefnogi llesiant a gwydnwch plant neu bobl ifanc
25. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer llesiant a gwydnwch plant neu bobl ifanc
26. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu llesiant a gwydnwch plant neu bobl ifanc

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. beth a olygir wrth wydnwch, a’r ffactorau a all effeithio ar wydnwch mewn plant a phobl ifanc
2. sut mae adnabod arwyddion gorbryder mewn plant a phobl ifanc a deall sut y gallai ymddangos mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnwys drwy ymddygiad a chyfathrebu
3. pwysigrwydd chwarae o ran cefnogi llesiant a gwydnwch
4. effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod ar ddatblygiad, llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
5. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
6. sut mae addasu eich ymarfer a'ch amgylcheddau i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu cymryd rhan gyfartal
7. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar lesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
8. dylanwad diwylliant, cefndir ac ysbrydolrwydd ar lesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
9. sut mae datblygu perthnasau gyson, ofalgar a meithringar gyda phlant a phobl ifanc
10. y cysylltiad rhwng y gallu i ymwneud ag eraill a llesiant a gwydnwch emosiynol plant a phobl ifanc
11. ffyrdd o helpu plant a phobl ifanc i ddeall, mynegi a rheoleiddio eu teimladau yn emosiynol
12. y cysylltiad rhwng plant a phobl ifanc yn herio ac yn profi eu galluoedd a’u gwydnwch a’u hunan-barch
13. dulliau i annog a chefnogi plant a phobl ifanc i brofi ac ymestyn eu sgiliau a’u galluoedd
14. ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc pan nad yw pethau'n mynd y ffordd a obeithiwyd neu a gynlluniwyd
15. ffyrdd o gefnogi plant a phobl ifanc sy’n teimlo’n orbryderus, gan gynnwys strategaethau i’w helpu i deimlo’n ddiogel, magu hyder, a datblygu sgiliau ymdopi
16. pwysigrwydd pam y dylai sylwadau gael eu cyfeirio at yr ymddygiad sy’n cael ei ddangos yn hytrach na’r plant a phobl ifanc eu hunain
17. sut mae dangos empathi a dealltwriaeth i blant a phobl ifanc, gan gynnwys yr

iaith a'r mynegiadau y gallech chi eu defnyddio
18. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
19. sut mae cynnal asesiadau risg sy'n cydbwyso rhagofalon rhesymol ac yn darparu cyfleoedd i ddatblygu
20. sut mae cefnogi defnydd diogel o ddyfeisiau ac adnoddau digidol ar gyfer plant a phobl ifanc
21. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
22. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
23. theorïau sy'n berthnasol i hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
24. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
25. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc
26. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Hybu llesiant a gwydnwch plant a phobl ifanc

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD352 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Llesiant, Gwydnwch, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |